



Llais y Llan Chwefror 2018

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Mawrth 2018

Gobeithio eich bod yn hoffi Llais y Llan ar ei newydd wedd - bydd y llun ar y dudalen flaen yn newid bob rhifyn. Felly os oes gennych lun o'r ardal yr hoffech ei rannu anfonwch ef ataf ar info@llanpumsaint.ork.uk <<mailto:info@llanpumsaint.ork.uk>>. Ni allwn addo defnyddio pob llun ond os ydych yn fodlon gallai rhai fynd ar ein gwefan www.llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau, 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd

Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Gwener, 11.30 – 12.30, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830

Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Gwener 11.15 – 12.15 Neuadd Bronwydd

Gwasanaeth Swyddfa Bost ar ddydd Mawrth 2.00 - 4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 Bryn y Wawr

Merched y Wawr Trydydd Nos Llun o'r Mis yn y Neuadd Goffa

Chwefror 10 Dydd Sadwrn 11.00 – 4.00 Gwerthu Garej Fferm y Felin Llanpumsaint

Chwefror 14 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Chwefror 20 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Chwefror 24 Dydd Sadwrn 10.30 CCB Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint

Chwefror 24 Dydd Sadwrn 10.00 – 3.00 Ffair Bysedd Gwyrdd

Chwefror 25 Dydd Sul 1.45 Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Chwefror 25 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Chwefror 26 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwydd

Mawrth 3 Dydd Sadwrn 10.30 Cymhennu'r Plwyf Neuadd Goffa

Mawrth 6 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mawrth 7 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Mawrth 14 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mawrth 20 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mawrth 26 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwydd

Ebrill 3 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Ebrill 11 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Ebrill 17 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Ebrill 18 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Ebrill 23 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwydd

Mai 12 Dydd Sadwrn “Fun Day”

Mai 30 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Medi 22 Dydd Sadwrn Macmillan Bore Coffi

Hydref 13 Nod Sadwrn ‘Meat Loaf’ Neuadd Goffa

I logi'r Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri, ffoniwch Derick Lock 253524

Santa Parade



Clwb Bowlio



Clwb Bowlio Dan- do Llanpumsaint a Nebo

Tro ar fyd fu hi ar ddechrau'r flwyddyn pan orchfygwyd Trimsaran 7-1, yna cyfartal 4-4 i ffwrdd erbyn Llanboidy. I ffwrdd fyddwn ni am y ddwy nesaf, i Salem ac yna Pontargoethi, sydd ar frig y tabl. Bu dau o'n haelodau, Gethin Edwards (sy'n dal y Tlws) ac Aled Edwards (pellaf ar y dde) yn cystadlu yn gystadleuaeth Byd Pedwarawd Y Meistri yn Chelmsford yn fis Rhagfyr. Hyfryd adrodd eu bod, gyda dau frawd o Bontargoethi, wedi goresgyn cystadlwyr cryf o wledydd eraill i ennill y Bencampwriaeth. Llongyfarchwn Aled hefyd wrth iddo gael ei ethol yn Ddewiswr i Sir Gaerfyrddin a hefyd i Dîm Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Clwb yn gwahodd unrhyw un sy'n awyddus i roi tro arni i ymuno mewn awyrgylch gyfeillgar gyda hyfforddwyr trwyddedig wrth law i'ch arwain. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Cadeirydd Alan Dentry 01267 253549 neu'r Ysgrifenydd Jill Edwards 01267 253474.

Cofio a Mwy

Yn fyr ond yn ddiffuant diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r llyfr, am gyfrannu i'r Noson Lansio hyfryd, ac am brynu. Os gallwch berswadio eraill i roi llaw mewn poced bydd yn help mawr i geisio gwneud elw fydd yn mynd at Elusennau Cancr.

Mae'r llyfrau ar werth gan y canlynol:

Gwalia Rhydargaeau; Siop y Pentan Caerfyrddin; Margaret Griffiths Nebo Bach; Tafarn y Railwe Llanpumsaint; Tafarn Nantcelynen Bronwydd; Siop y Pentre Cynwil Elfed;

Arwyn Thomas arwynmsdd1@btinternet.com 01267 235324

Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint

Gwnewch nodyn o'r dyddiad sef Bore Coffi'r Pwyllgor at Elusen Macmillan ar fore Sadwrn 22ain Medi yn y Neuadd o ddeg y bore tan hanner dydd.

Croesawyd dau aelod newydd ym mis Ionawr, sef Paul Branford a Kevin Mably. Os oes yna rywun arall yn barod i wirfoddoli yna cysylltwch â'r Cadeirydd Pamela Jones 253257 yn y nos neu codwch i ffon i mi. Bob mis mae'r Gwirfoddolwyr yn cwrdd.

Da gennym gyhoeddi i'r swm sylweddol o £800 gael ei godi at ein helusen ddewisol am 2017 sef Elusen Eiriol at Iechyd y Meddwl Caerfyrddin. Codwyd hyn gan elw Cinio at yr achos yn y Railwe, casgliadau Gorymdaith Siôn Corn, Y Raffl a ffrwyth y Botel ar y Bar. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu, i Siôn Corn a'i fintai, hefyd Jayne a Nick yn y Railwe ac yn olaf i Martin Dickenson, 'nol yn y gwt rywle. Cyflwynir y sic i Eiriol rywbyrd yn y dyfodol yn y Railwe.

Prynwyd dwy fainc ychwanegol i'r Cae Chwarae i'w gosod yn eu lle cyn gynted a bydd y tywydd yn caniatáu. Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth y 13eg o Fawrth yn y Neuadd, am 8 o'r gloch. Ysgrifennydd Derek Lock 253524

Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint

Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar y safle ar Sadwrn 24ain o Chwefror am hanner awr wedi deg y bore, pan fydd aelodau'n cofrestru. Rydym yn dal i chwilio am waed newydd, felly croeso i chi ymuno. £35 yw'r Aelodaeth am y flwyddyn gyntaf i ostwng i £25 wedyn a chroeso taw pa oed i chi. Lleolir y rhandiroedd ar hen iard yr orsaf gyferbyn a thafarn y Railwe Gellir cysylltu gyda Keith 253375 neu Ray 253157.

Cymhennu'r Plwyf - 3dd Mawrth 2018.

Fel rhan o ymgyrch **Creu Gardd Hardd** Cyngor Sir Gaerfyrddin bydd y Clwb Cerdded yn trefnu *Bore Cymhennu a chlanhau* er mwyn casglu'r holl sbwriel ar ein holl heolydd yn y plwyf. Felly mae gwir angen help i lanhau'r ardal. Mwya' i gyd o ddwylo mwya' i gyd o lendid, felly dewch yn llw i faes parcio'r Neuadd erbyn hanner awr wedi deg y bore.

Bydd dillad llachar, bagiau du ac offer codi i gyd ar gael, ond dewch a'ch menig eich hunan. Yn dibynnu ar faint ddaw trefnir grwpiau i wahanol ardaloedd gan gychwyn o'r Neuadd wrth gwrs. Telir sylw arbennig i'r mannau gwaethaf, sef ardal y Graig, yr hewl tua Skanda Vale, a'r ffordd heibio'r Bryn mas i Benrhewlgam a heol Llambled. Rhyw awr o waith yw e' i gyd, ac ni fydd angen i chi gario'r bagiau llawn oherwydd byddwn yn trefnu eu codi.

Croeso i bawb ond rhaid i blant dan 16 fod yng ngofal oedolyn. Yn y gorffennol daeth ystod eang, o dair blwydd oed i bedwar ugain. Ar y diwedd tynnir llun o'r holl fagiau a'r casglwyr o flaen Neuadd yw gyhoeddi yn y rhifyn nesaf o Lais y Llan. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Carolyn Smethurst ar 253308.

Dail y Gwanwyn

Er mae lonawr diflas yw hi wrth ysgrifennu cyn gynted ag mae llygedyn o heulwen clywaf y Titw Mawr yn canu yn y coed her yr hewl. Fe yw'r cyntaf i'w glywed yn y flwyddyn newydd yn yr ardal yma, yn gwneud ei orau i ddenu cydmar. Ryw wythnos yn ôl ger y castell y Llansteffan clywais y Fronfraith yn canu'n hapus. Erbyn canol Chwefror bydd lawer mwy o adar wrthi, a chlywir y Giach, ein hymwelydd o'r gogledd oer, yn y brwyn a 'r gwrych.

Y Gwanwyn cynnar yw'r amser gorau i gasglu dail gwyllt gellir eu bwyta, wrth iddynt esgyn o'r ddaear, yn gynharach o lawer nag unrhyw gynnyrch gardd.ar wahân i'r brocoli.

Erbyn Mawrth daw'r dined i'r golwg. Mae'n swnio beth od i fwta dined ond wedi eu berwi mewn ychydig o ddŵr ni fyddant yn pigo wedyn. Siswrn a phadell a mas a chi i dorri'r ddwy ddeilen ucha' yn unig, a bydd angen mynd i fan lluosog arnoch. Wedi llanw'r badell bydd digon gyda'ch i wneud cawl, gyda thato a winwns, neu eu cymysgu gyda blawd ac wyau a bacwn efalle. Mae'r dail gwyllt yma yn llawn maeth, yn ffynhonnell naturiol sy'n rhydd o holl gemegau'r ddynol ryw. Mae'r werin yn Ffrainc yn mynd mas i gasglu gwyrddni newydd yn y Gwanwyn, ac yn arbennig dant y llew. Rhywbeth i godi calon ar ôl y gaeaf! Ma' nhw'n iawn fyd!

Hawdd ei adnabod yw'r Suran, gyda'i ddail syth gwyrdd a'r blas llym lemwn, ac o'i ferwi cawn saws hyfryd gyda physgod. Ond gair o gyngor peidiwch â'i gymysgu am Laeth y Gaseg. Unwaith eich bod yn hyderus gall Suran chwarae rhan bwysig yn eich coginio. Mae'n tyfu'n gryf ar hyd llwybrau'r arfordir lle nad yw hin rhewi. Hoffwn fod wedi son am Arlleg y Berth ac eraill ond nid yw amser yn caniatáu.

Mae fy hoff gawl Gwanwyn yn cynnwys Suren, Dined, Garlleg y Berth, tyfiant cyntaf Llwfach yr Alban a Berwr y Fagwyr, a pheth tato a winwns wrth gwrs. Pob hwyl gyda'r chwilota! Ann Pettitt

Nodyn Pwysig i'r Dyddiadur

Mae Pwyllgor y Neuadd wedi clustnodi Nos Sadwrn 13eg Hydref 2018 am berfformiad arall gan MEATLOAF. Manylion pellach yn nes ymlaen.

Clwb Ieuenctid Llanpumsaint. Ar ei wely angau??

Ni fu yna gyfarfod ers pedair blynedd bellach wedi i Fws Mobi roi'r gorau iddi. Cyn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin er mwyn dirwyn y mudiad i ben, gofynnwn a oes yna riant yn Llanpumsaint yn barod i ffurfio Pwyllgor ac ail gynnu'r fflam.

Ymysg yr adnoddau mae yna fwrdd tennis, Ford Pŵl, teledu a nifer o eitemau llai ynghyd a rhyw £600 yn y Banc. Os oes yna rieni yn barod i wasanaethu ar Bwyllgor er mwyn ail gychwyn pethe cysylltwch â Derek ar 253524 cyn diwedd Ebrill. Heblaw am hynny awn ati i ofyn i'r Cyngor Sir gau'r Clwb Ieuenctid a throsglwyddo'r holl adnoddau yn ôl y cyfansoddiad.

Clwb Cant Llanpumsaint

Tynnwyd y rhifau buddugol yng nghyfarfod lonawr o'r Gwirfoddolwyr yn ôl a ganlyn;-

£20 Rhif 52 – Nivina Davies

£10 Rhif 11 - (Mr) Ray Davies

£5 Rhif 46 - Y Railwe £5 83 - Olwen Jones

Byddaf yn awr yn paratoi'r Adroddiad Blynnyddol ac yn canlyn pobl i ail ymuno a hefyd yn annog rhai newydd. Tynnir yr enwau nesaf ym Mis Mawrth. Penderfynwyd hefyd gan y Pwyllgor i ddileu un wobwr £5 yn y dyfodol. Felly fel hyn bydd hi o hyn mas ;- £20 - £15 - £10 - felly £5 yn fwy bob mis. Er hynny mae'r gwerth £15 o wobrau Nadolig i aros. Derick Lock

Eglwysi Llanpumsaint, Bronwydd a Llanllawddog

Bu lansio llyfr Arwyn Thomas yn achlysur arbennig iawn, ac mor hyfryd oedd hi i weld y Neuadd yn orlawn cyn y Nadolig gyda'r ysbryd cymunedol mor fyw. Yn y llyfr "I Gofio a Mwy" mae yna un darn ar yr hen Goeden Ywen yr Eglwys. Y Goeden sy'n siarad ac yn datgan yn un man, "Sa'i di gweld Ficer am spel!"

Wel rwy'n falch i weud fod pethe ar newid, oherwydd 'rwyf yn yr Eglwys yn aml, ac o amgylch y pentre', yn ymweld â'r Ysgol ac yn byw yn y Ficerdy newydd. Mae gan ein heglwysi raglen lawn o wasanaethau a digwyddiadau drwy'r wythnos a hefyd y Sadwrn a Sul.

Yn ôl Ganddi "Rhaid i chi fod y newid i chi am weld!", gwir neu beidio maent yn eiriau gwerth eu hystyried. Os fel Coeden Ywen Arwyn rydych am gadw drysau'r eglwys ar agor a gweld cymdeithas egniol yn ffynnu o'i hamgylch yn gwasanaethu pob oedran, yna mae'n rhaid i chi fod yn rhan o'r ateb. Byddai'n bleser eich croesawu i unrhyw un o'm gweithgareddau, ac os nad ydy'n plesio yna dywedwch wrthym beth ddylai newid, rydym yn barod i wrando. Gall newid fod yn gadarnhaol yn hytrach na negyddol. Gwn fod yna lawer yn ein cymdeithas yn gefnogol i'r Eglwys heb fynychu'r gwasanaethau, diolch am hynny ond mae angen eich presenoldeb yn ychwanegol i'r anrhegion. Pan ysgrifennodd Paul i'r Eglwys yn Thesolania anogodd hwynt i galonogi ei gilydd. Mae'r neges hon yr un mor bwysig i'n heglwysi cyfoes, os ydynt am ffynnu a bod yn berthnasol i'r byd heddiw. Rhaid i ni fod yn gymdeithas fywiog o amryw o bobl yn cyd-gwrdd a chyd-weithio.

Ar Noswyl Nadolig mi welodd yr hen Goeden Ywen rhywun a choler gwyn ymysg torf yn cloncian a chanu carolau y tu allan i'r Eglwys, wrth iddynt ymuno a Gorymdaith Siôn Corn. 'Rwyf yn wir obeithio a gweddïo y gwelwn yr adeilad yn llawn unwaith eto (nid yn unig am angladdau), a'r gymuned yn ein gweld fel addoldy byw fydd yno i genedlaethau'r dyfodol.

Ceir manylion yr holl wasanaethau a digwyddiadau ar dudalen Facebook Eglwysi Llanpumsaint a Llanllawddog a hefyd ar hysbysfwrdd y ddau.

Y Parch Gaynor i.gaynor@hotmail.com 01267 253158

Dyddiau'r Eglwysi i Lais y Llan

Pob Sul - Amserau ar dudalen Facebook a Hysbysfwrdd pob Eglwys

Pob Dydd Mawrth - Gwasanaeth byr o Foreol Weddi yn Eglwys Llanpumsaint. Amser i gamu 'nol o brysurdeb bywyd ac ail gysylltu â Duw

Nos Wener 2ail Chwefror - 6 y.h yn Celynin Bronwydd. Gwasanaeth pob oed Gŵyl Fair y Canhwyllau - Wedi ei anieli at blant pan ddaw'r Canon Patrick Thomas a'r gwestai arbennig, Cosmos, cath Eglwys Christchurch.

Nos Fercher 14eg Chwefror 7 y.h Eglwys Llanpumsaint – Cymun Bendigaid i Ddydd Mercher y Llundw
Nos Fawrth a phob *Nos Fawrth* adeg y Grawys - 7 y.h Astudio'r Beibl yn y Ficerdy. Cysylltwcha Gaynor am fwy o wybodaeth.

Dydd Gwyl Dewi 1af Mawrth - 2.30 y.p gwasanaeth yn Eglwys Llanpumsaint

Nos Lun 5ed Mawrth – 7 y.h Neuadd Eglwys Llanllawddog Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Nos Iau 29ain Mawrth - 7.Y.h Eglwys Llanllawddog - gwasanaeth Dydd Iau'r Gofid

Bore Gwener y Groglith 30ain Mawrth 10 y.b. Safleoedd y Groes yn Eglwys Llanpumsaint. Tra i'r tywydd ganiatâi bydd hwn yn wasanaeth awyr agored i adlewyrchu'r daith i'r Groes. Felly mi fydd yna ychydig gerdded o gwmpas tu fas. Achlysur arbennig i deuluoedd!

2 y.p Eglwys Sant Celynin – Adlewyrchiad ar y Groes.

Dydd Sul y Pasg - 1af Ebrill - Gwasanaethau Cymun Bendigaid -

8.30 y.b Llanllawddog; 10 y.b – Celynin. 11.30 y.b Llanpumsaint

Canolfan Ailgylchu Llanpumsaint

Yn dilyn fy adroddiad diwethaf yn y Llais da yw nodi na fu yna unrhyw anhawster dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Felly ni fu raid adrodd yn negyddol i'r Cyngor Sir sy'n talu £500 y flwyddyn i ni am gynnal y gwasanaeth. Cofiwch roi gwybod i mi am unrhyw dipio anghyfreithlon neu anhawster ynghyn a'r ganolfan . Derek Lock

Diwrnod Hwyl 2018-01-28 Cynhelir y Diwrnod Hwyl ar Sadwrn 13 o Fai eleni. Ymysg y gweithgareddau bydd Ras Hwyaidd Capel Nebo, Cystadleuaeth 5 Bob Ochr Peldroed gyda Panthers Peniel a'r Gymdeithas Rhieni/Athrawon, Rhostio Mochyn a'r holl gymadawe, a chyfleusterau diodydd wedi eu trefnu gan y Pwyllgor Lles. Hyn i gyd i orffen yn yr hwyr gyda cherddoriaeth o'r 5o ar 60 degau gyda Jerry Allen. Daw mwy o wybodaeth eto.

Clwb Gwili Chwedeg

Daeth 64 o aelodau ar ein gwibdaith gudd am Ginio Nadolig yn Rhagfyr. Wedi hoe fach a choffi yn Aberaeron ymlaen a ni i Westy'r Parc yn Aberystwyth i fwynhau ein gwledd Nadolig. Pawb wrth eu bodd!

Dyddiadau fel a ganlyn;-

22 Ionawr - Seryddwr - Jeremy John "The Lady of the Black Horse"

26ain Chwefror - Peter Hughes Griffiths - Dathlu Gwyl Ddewi - Telynores Sioned Glyn - (Pawb i ddod a'u bowlen a'u llwy am y cawl) Lluniaeth ysgafn i ddilyn wedyn.

26ain Mawrth – Mrs Jane Hanwell – Demetia

23ain Ebrill – Parch Victoria Hacket – "Preaching and Teaching in London"

2ail Mai - Gwibdaith eto yw trefnu

Mae'r Clwb yn dal i gwrdd ar y pedwerydd Llun o'r Mis am 2 o'r gloch yn Neuadd Bronwydd. £5 yw'r aelodaeth o hyd! Val Giles 01267 281194

Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Caersalem, Llanpumsaint

Yr Arglwydd a geidw dy fynediad a'th ddyfodiad, o'r pryd hwn hyd yn dragywydd.

Salm 121:8

Gwasanaeth Cymraeg pob prynhawn Sul am 2pm neu 2.30pm ar wahan i Sul ola'r mis pan mae'r oedfa yn Saesneg.

Cwrdd gweddi bob prynhawn dydd Iau ac Ysgol Sul i oedolion ar fore Sul

Croeso i bawb. Am fwy o fanylion ffoniwch Eleri Morris ar 01267 253895

Capel Ffynnonhenri

Chwefror 25 2018 Gwasanaeth Gwyl Dewi

Am 2.00y.p. Manylion i ddilyn

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Ar nos Sadwrn Tachwedd 4ydd 2017 cynhaliodd y cór ei Cyngerdd Blynyddol yng Nghapel y Tabernacl Caerfyrddin. Yr artistiaid gwadd oedd Jessica Robinson, Soprano. Huw Ynyr, Tenor, Daniel O'Claghan, Offerynnwr a Carys Bowen Adroddwraig. Cafwyd cyngerdd o safon uchel iawn a mawr oedd canmoliaeth y gwrandawyr am safon y cór a'r artistiaid. Gwyn Nicholas oedd yn arwain y cór a Lynne James a Rhiannon Pritchard oedd y cyfeilyddion. Ar Dachwedd 24ain 2017 cynhaliodd y cór gyngerdd yn Nhalog gyda'r elw yn mynd tuag at gynnal a chadw y Neuadd. Cafwyd ymateb teilwng iawn er gwaetha'r tywydd garw. Edrychwn ymlaen yn awr at gyngerdd ar 8ed o Ragfyr yn Salem Llandeilo ac yn Llanpumsaint ar Ragfyr 14eg. Ar ól hyn i gyd fe fydd y cór yn cael saib deilwng iawn dros y Nadolig gan ail-ddechrau ym mis Ionawr.

Os oes gyda chi ddiddordeb i ymaelodi yn y cór cysylltwch a Gwyn Nicholas neu unrhyw aelod o'r cór an fanylion pellach.

Ffair Bysedd Gwyrdd Sadwrn 24ain Chwefror

Cynhelir y Ffair Bysedd Gwyrdd yn Neuadd San Pedr Caerfyrddin o ddeg y bore hyd dri o'r gloch y prynhawn, lle bydd cyfleoedd i gyfnewid hadau eleni eto. Bydd stondinau gan werthwyr lleol, ac Elusennau, a bydd cyfleoedd i hybu'r fasnach deg a chynnyrch organig ac ail gylchu. Bydd Offer Hunangynhaliol Cymru yno'n arddangos eu cynnyrch unigryw ac amrywiol. Mynediad am ddim a bwyd gan Caffi Iechyd Da

Cymdeithas Rhieni/Athrawon Ysgol Llanpumsaint

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd y Ffair Nadolig blynyddol ar Sadwrn yr 2ail o Ragfyr, gyda dros ugain o stondinau, y plant yn canu a Siôn Corn yn ei gell. Diolch i'r holl gymuned am eu cefnogaeth ar y dydd, ac yn arbennig i'r canlynol;-

I Siôn Corn am ddiddori'r plant yn ei gell-

Becky Ffrwythau am roi llysiau i'r cawl ac anrheg i'r Raffl-

Chris Thomas hefyd am llysiau yn arbennig i'r cawl-

Pob un wnaeth redeg Stodin.

Gobeithiwn eich gweld flwyddyn nesaf.

Tafarn y Railwe

Diolchwn i Jayne a Nick am y nosweithiau Cyri, Pastai a Lasagne maent wedi eu trefni drosom.

Mwynhawyd y bwyd yn fawr gan y rhieni, y plant a'n cefnogwyr, er mwyn elwa'r Gymdeithas.

Cawn drefni un arall cyn hir gobeithio.

Ffordd rwydd o godi arian

Os ydych yn siopa ar y We yna gallwch helpi'r Gymdeithas drwy gofrestru ar

www.easyfundraising.co.uk/causes/llanpumsaintPTA

<<http://www.easyfundraising.co.uk/causes/llanpumsaintPTA>> neu gysylltu Emma Brown.

£4£ - Os oes unrhyw un yn y gymuned yn gallu hawlio yr uchod drwy ei gwaith neu unrhyw ffordd arall ac yn fodlon i'r PRHaA i hawlio yr arian a fydddech cystal a chysylltu a Becky James ar 01267 253560

Heddlu

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n profi cynnydd yn nifer y lladradau o ffermydd ac eiddo gwledig ledled y sir. Mae lladron yn targedu beiciau cwad, offer ac unrhyw beth y gellir ei godi a'i gario i ffwrdd yn hawdd. Byddem yn gofyn i chi ddechrau cloi'ch siediau, tynnu'r allweddi allan o'ch cerbydau, a pheidio â gadael unrhyw beth o werth mewn golwg. Byddwch yn wylidwros os gwelwch chi'n dda. Os oes cerbyd yn galw heibio i'ch eiddo ac rydych chi'n teimlo bod yr ymweliad hwn yn amheus, galwch ni ar 101 gan ddyfynnu rif cofrestru'r cerbyd. Byddwn ni'n dilyn yr adroddiad hwn i fyny ac yn ymddwyn yn unol â hynny. Gellir rhoi cyngor ynghylch teledu cylch cyfyng a diogelwch i geisio gwneud eich eiddo'n fwy diogel. Cysylltwch â mi am ragor o wybodaeth.

Rydyn ni dal yn edrych ar sefydlu cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned yn yr ardal. Sefydlwyd y prosiect hwn er mwyn cynnwys aelodau o'r gymuned a fydd, yng nghwmni SCCH, yn gweithredu dyfais dangos cyflymder ac yn casglu'r wybodaeth, a fydd yn cael ei hanfon ymlaen i'n swyddfa docynnau ganolog. Bydd hyn yn arwain at geidwad y cerbyd sy'n goryrru'n derbyn llythyr yn ei rybuddio am ei gamwedd diweddar ac y bydd yn agored i dderbyn pwyntiau os fydd yn cael ei ddal eto. Rydyn ni'n chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â ni yn Llanpumsaint.

Rydw i ar gael ar 101 neu drwy e-bost ar martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk os oes gennych unrhyw bryderon.

Dewch a'r tan ar y cae nid yn y gegin!

Er ein bod yn falch iawn o gefnogi ein dynion a'n menywod eleni ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn awyddus i atgoffa'r cyhoedd o beryglon coginio ar ôl yfed.

Wrth i filoedd o gefnogwyr rygbi heidio i'r stadiwm neu'r dafarn i wyllo'r gemau, neu hyd yn oed eu gwyllo gartref gyda ffrindiau, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn annog y cyhoedd i osgoi coginio dan ddylanwad alcohol ar ôl y gêm – ac i gael tecawê yn lle hynny.

Yn 2017, ymatebodd y Gwasanaeth i 246 o achosion a oedd yn ymwneud â choginio ledled ardal y gwasanaeth. Nid oes unrhyw reswm dros beri risg i chi eich hun, i'ch anwyliaid, ac i'ch cartref trwy goginio dan ddylanwad alcohol.

Meddai'r Dirprwy Bennaeth Diogelwch Cymunedol, a'r cefnogwr rygbi brwd, Steve Davies:

"Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dymuno'n dda i Gymru!"

"Er y bydd llawer o bobl yn mwynhau'r rygbi dros ddiod alcoholig, a hynny naill ai yn eu cartrefi eu hunain neu yng nghanol awyrgylch y dafarn, canlyniad gwaethaf Pencampwriaeth y Chwe Gwlad eleni fyddai colli rhywun mewn tân y gellid bod wedi ei osgoi.

"Rydym yn annog cefnogwyr rygbi i osgoi coginio ar ôl yfed. Mae ein diffoddwyr tân yn aml yn ymateb i danau difrifol mewn tai o ganlyniad i goginio dan ddylanwad alcohol, ac mae'r canlyniadau'n gallu bod yn ddinistriol, neu hyd yn oed yn angheuol.

"Ceisiwch ddod o hyd i ddewis arall ar ôl yfed, ac os ydych yn bwriadu cael noson fawr, yna trefnwch fwyta allan a dathlu'n ddiogel.

Gadewch i'r Bencampwriaeth y Chwe Gwlad 2018 fod yn gofiadwy am y rhesymau iawn ... buddugoliaeth i Gymru!"

2018.....Y flwyddyn I chi gwirfoddoli?

Mae gwirfoddoli ar draws Sir Gâr yn gael eu cefnogi gan Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddoli Sir Gâr *CAVS* oddiwrth eu swyddfa yn Y Mount, Heol y Frenhines, drws nesa I Neuadd y Sir.

Trwy ein cysylltiadau helaeth gyda mudiadau ledled y sir, rydyn ni yn gallu darparu gwasanaeth i unigolion sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli, ac i fudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn eu gwaith. Nod y Canolfan yw annog y defnydd o wirfoddolwyr, a chodi safonau ar gyfer gwirfoddolwyr, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth ar gael i bob mudiad gwirfoddol yn Sir Gâr sy'n cofrestru gyda'r canolfan ac yn cytuno i weithio tuag at Côt Arfer Da. Rydyn ni yn helpu mudiadau i ddatblygu polisiau, ac yn darparu gwybodaeth o'n llyfrgell helaeth o adnoddau ar bob mater yn ymwneud â rheoli gwirfoddolwyr. Yn llythrennol, mae gennym gannoedd o gyfleoedd gwirfoddoli sy'n chwilio am wirfoddolwyr. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau, ac fe wnawn ein gorau i sicrhau eich bod yn dod o hyd i rywbeth sy'n addas i chi. Felly, beth bynnag yw'ch diddordeb, ble bynnag yr ydych chi'n byw, beth bynnag yw eich sgiliau, ffoniwch ni a gadewch i ni eich helpu.

Mae Jamie Horton (Byw yn Llanpumpsaint) a Ruth Evans (O Llanllwni) wedi bod yn y swydd ers mis Tachwedd, a trwy Arian gan Cyllid Ewropeaidd, **LEADER**, fe fyddwn yn ganolbwyntio ar ardaloedd mwyaf gwledig y Sir. Wrth cwrs ma rhan fwyaf o Sir Gâr yn gwledig felly fyddwn allan yn siarad am iechyd a lles, gwerth cymdeithasol a chymunedol o gwirfoddoli yn lleol.

“Mae cydlyniant a gwydnwch cymunedol wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud” meddai Ruth .

Rhan o'r prosiect, sydd yn gorffen yn Hydref 2019 yw i annog pobl sydd yn edrych i wirfoddoli i gofrestru ar y wefan www.gwirfoddolicymru.net, byddan yn gynnig hyfforddiant am ddim i helpu pobl i paratoi i wirfoddoli ac byddan yn cefnogi'r datblygiad o cyfleoedd gwirfoddoli gwledig newydd.

“Byddwn allan led led y sir yn ein cerbyd gwirfoddoli felly dewch i gweud Shwmae. Mae Ruth a minnau hefyd yn gwirfoddoli felly gofynnwch unrhyw cwestiwn i ni” Roedd Jamie yn gwirfoddoli gyda Home-Start Caerfyrddin-Llanelli a wedi siarad trwy Llais y Pentraf yn y gorffennol am eu profiad.

Beth am ein cefnogi trwy llenwi yr holiadur byr a rhannu eich barn.

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/ruralvolunteering>

Os hoffech siarad a aelod o tîm CAVS ffoniwch **01267 24 55 55**

Gallwch hefyd e-bostio : **admin@cavs.org.uk**

Mae CAVS yn gallu hysbysu eich cyfleoedd gwirfoddoli trwy e-bwletin, cylchgrawn, ar ein wefan neu yn personol trwy ein gwaith allgymorth. Rhwch wbod sut y gallwn ni eich helpu.

Miss Jamie Horton Swyddog Gwirfoddoli Gwledig / Rural Volunteering Officer

Newyddion Cyngor Cymuned

Cyfarfod braidd yn anghyffredin oedd cyfarfod cyntaf y flwyddyn I Gyngor Cymuned Llanpumsaint oherwydd nad oedd iddo Gadeirydd nac ychwaith Is Gadeirydd oherwydd fod Pamela Jones; Cadeirydd y Cyngor yn absennol oherwydd profedigaeth ac yna Dylan Jones yr Is Gadeirydd ac Arwel Nicholas, y Cadeirydd diwethaf, yn sâl gyda'r fflw. Trafwyd pwy ddylasai gadeiro'r cyfarfod a phenderfynnwyd gofyn I Danny Davies a fuodd yn Gadeirydd dwy flynedd yn ôl, I arwain y Cyfarfod ac ar ôl I Danny Davies gytuno gyda'r penderfyniad, aeth y cyfarfod yn ei flaen. Esytynwyd cydymdeimladau dwysaf I'r Cadeirydd ac adroddodd y Clerc iddo ymweld gyda'r teulu a chydymdeimlo â nhw ar ran y Cyngor ac iddo adael blodau a cherdyn iddynt.

Bu trafodaeth hir ar eitem agenda anghyffredin, sef bod posibilrwydd y bydd y gymuned yn derbyn arian oddi wrth y cwmni ynni cynaliadwy sydd yn codi melinoedd gwynt yng nghoedwig Brechfa. Soniodd y Clerc I'r Cadeirydd, Pamela Jones ac yntau fynychu cyfarfod ym Mhencader ar ddiwedd Tachwedd ac iddynt gyfarfod â phersonel Innogy Renewables sydd yn gweithio gyda chymunedau ac eu bod wedi cwblhau ffurflen arolwg ac wedi rhestru rhai syniadau ac awgrymiadau sut gellir gwario'r arian o fewn y pentref. Cytunodd y Cynghorwyr gyda'r awgrymiadau ond teimlent iddo fod yn rhy gynnar I gychwyn dim nes bod cadarnhad yn cael ei dderbyn fod arian ar gael a beth fyddai'r swm ond os daw cyllid o'r goedwig, telir yr arian am 25ain mlynedd. Treuliwyd gweddill y cyfarfod yn trafod y manion bethau arferol megis priffyrdd a chynllunio ac wrth gwrs materion ariannol gan mae ym Mis Ionawr y pennir y praesept blynyddol. Cytunwyd I gadw'r swm ar yr un raddfa sef £22/Eiddo Band D

Gofal Traed

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwinytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis.

Y Flwyddyn 1917

Un testun siarad ar ddechrau'r flwyddyn debyg iawn oedd yr eira mawr ddisgynnodd cyn Nadolig. Bron i droedfedd o drwch hyd yn oed ar dir isel, a llawer mwy ar y bryniau, ac mi fydde rhagor ar y ffordd ddechrau Ebrill. Ond daeth trychineb go iawn i darddu ar y man drafod, pan glywyd fod bachgen dwy flwydd oed wedi marw o'i losgiadau yn Pantyffordd, ond dim i neud ac efail y gof yno. Pan aeth y fam mas i 'nol glo, taflodd y plentyn bach bapur i'r grât yn y gegin ac aeth ei ddillad ar dan. Er pob ymdrech gan y teulu a'r meddyg bu farw o'i losgiadau trannoeth.

Cymerwyd rhan yn nathliad Calan Hen yn Llandysul fel arfer gan Eglwys Llanpumsaint, ynghyd a llu o eglwysi eraill, ddechrau Ionawr. Dan arweiniad Philip Thomas Glynneuadd canwyd yr anthem, "*Llawenychais pan ddywedant wrthyf*". gyda Miss Howells Pantiouar wrth yr organ. Cynhaliwyd Eisteddfod Ffynnonhenri ar yr 8fed o Fawrth gyda Mr B Jones o Hampstead yn y Gadair, a bu'r alltud yn hael iawn gyda'i rhodd o £10. Ail oedd Ben Cwmwernen yn yr adrodd dan bymtheg, yn ildio'r wobr gyntaf i Maggie Davies y Felin. Ail hefyd ddaeth i Nellie Jones Penllwynuchel yn yr unawd dan bymtheg. Flynyddoedd wedyn byddai'n canu y tu ôl i'r Bar yn y Salutation Pontargoethi.

Wrthi'r Rhyfel boethi yn Ffrainc a'r colledion bentyrru gorfodwyd mwy a mwy o'r bechgyn ifainc i ymuno a'r lluoedd arfog. Cafodd hyn effaith andwyol ar fywyd a gwaith yn lleol a gwelwyd cryn wrthwynebiad i'r galwadau milwrol. Aethpwyd ag Apêl ar ôl Apêl i'r Tribiwnlys ac erbyn 1917 yr oedd y wasg leol wrthi'n gyson yn cofnodi'r canlyniadau. Esgusodwyd melinydd y Pandy John Roderick a hefyd Dafydd Ifans Brodawel am ei fod yn was ffarm i deulu Pantycelyn. Oherwydd bod mab Manbras (sef Helfa Hall heddiw) yn cario coed i'r pyllau glo holl bwysig, esgusodwyd yntau. Dangosodd y Tribiwnlys gydymdeimlad a ffermwr Glangwili Bronwydd, oedd eisioes wedi anfon tri mab ac un llysfab i'r fyddin, cafodd yr olaf aros adre. Ond bu raid i fab Tyrbach ymuno oherwydd fod yna bedair merch ar ol i weithio ar y fferm 57 erw, a dyna dynged un o ddynion Pante Bronwydd hefyd. Amhosib plesio pawb! Beth bynnag fyddai penderfyniad y Tribiwnlys achosai hynny dyndra i'r gymdeithas, siom neu lawenydd, a chenfigen weithiau hefyd.

Methiant fu ymgais perchennog allt Lanfawr yn Nebo i hawlio iawndal o'r Rheilffordd wedi i'r goedwig fynd ar dan. Yn ôl y Barnwr gallai sparc o'r trê'n fod yn gyfrifol. Yn mis Tachwedd bu mam-gu Mali Post farw yn 69. Hi oedd gwraig yr hen Orsaf Feistr Thomas Ifans, adeiladodd y tafarn a'r Swyddfa Bost. Ond daeth un darn o newyddion o Ffrainc wnaeth blesio pawb, pan ddedfrydwyd Y Fedal Filitaraidd am wroldeb i Dan Ifans mab Typicca yn Bronwydd. Cyn ymuno a'r Fyddin bu'n was ffarm yn Clover Hill Llanpumsaint. Treilliodd Dan ei ddyddiau olaf yn y cyn Dafarn Clifford House ger y Graig, a drws nesai i'w frawd Tom yn Awelfa (gwr yr enwog Jennie). Bu'n dafarn prysur un amser ond nid oedd y perchennog yn ei hwyliu gorau tua diwedd 1917. Derbyniodd ddirwy o ddeg swllt gan y Llys yng Nghaerfyrddin am nad oedd golau ôl ar ei gart a cheffyl am hanner awr wedi pump un noson ym Mis Tachwedd. Daliwyd ef gan yr heddwes John Morgan o Gynwil ar yr heol unig i Lanpumsaint. Gallwch serfo cwrw ar ôl amser a dod bant a hi, ond mi geith e' chi am rwbeth cyn diwedd!

Arwyn 2018



Village Voice December 2017

Copy Date for next Edition 24th March 2018

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

We hope you like the new look Village Voice – we will change the photo on the front page for each edition – if you have a photo of Llanpumsaint you would like to share, please send it to me at info@llanpumsaint.org.uk. Can't promise to use every photo, but when you email me, please say if you are happy for us to put it on our website www.llanpumsaint.org.uk

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Monday and Thursday from 4 September Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall

Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1 hour session.

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

Every Friday 11.30 – 12.30 Mobile Library outside Memorial Hall, details 224830

Every Tuesday 2.00 – 4.00 and Friday 1.00 – 3.00 Mobile Post Office, layby Bryn y Wawr

Every Friday 11.15 – 12.15 Post Office Van Bronwydd Village Hall Carpark

Every Third Monday – Merched y Wawr Memorial Hall

February 10 Saturday 11.00 – 4.00 Garage sale Fferm y Felin

February 14 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

February 20 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

February 24 Saturday 10.30 AGM Allotment Association at Old Station Site

February 24 Saturday 10.00 – 3.00 Seedy Saturday Green Fayre St Peter's Hall Carmarthen

February 25 Sunday 1.45 West Wales Dowers Bronwydd Hall

February 25 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

February 26 Monday 2.00 Clwb gwili 60+ Club Bronwydd Hall

March 3 Saturday 10.30 Village Litter Pick start at Memorial Hall

March 6 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall

March 7 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall
 March 14 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book
 March 20 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn
 March 26 Monday 2.00 Clwbgwili 60+ Club Bronwydd Hall
 April 3 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall
 April 11 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book
 April 17 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn
 April 18 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall
 April 23 Monday 2.00 Clwbgwili 60+ Club Bronwydd Hall
 May 12 Saturday Fun Day in Playing Field
 May 30 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall
 September 22 Saturday 10 – 12 Macmillan Coffee Morning
 October 13 Saturday Meat Loaf at Memorial Hall

Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall - To book phone Derick Lock on 253524

Santa Parade



Congratulations to Bowls Club Members – see below



LLANPUMSAINT & NEBO SHORT MAT BOWLING CLUB

The start of the year has proved a turning point for the Club with an excellent win at home against Trimsaran 7-1. This was followed by an away draw against Llanboidy A 4-4. Our next run of games are all away against Salem and Pontargothi who top the Division 1 table at the moment.

Two of our Members, Gethin Edwards (holding the trophy) and Aled Edwards (far right) took part in the Short Mat Players Tour World Fours Masters in Chelmsford in December and we are pleased to report that they, along with two brothers from Pontargothi, beat strong opposition from other Countries to win the title.

Our congratulations go to Aled who has been chosen as a Carmarthenshire County Selector and also a Selector for the Welsh Team.

The Club would like to extend a warm welcome to anyone who wishes to try this very sociable sport for themselves; we have qualified coaches on hand to support and encourage players. For further information please phone our Chair Alan Dentry (01267) 253549 or our Secretary Jill Edwards on (01267) 253474

LLANPUMSAINT WELFARE AND RECREATION ASSOCIATION

The Association's Macmillan Coffee Morning will be held on Saturday, 22nd. September from 10 to 12 noon in the Memorial Hall. Please make a note in your diary of this annual event.

At the Trustees' January meeting, we welcomed two new Trustees, Paul Branford and Kevin Mably. Anyone interested in joining us can contact our Chair Pamela Jones on 253257 most evenings or myself. The Trustees meet bi-monthly.

The Trustees are pleased to announce that the sum of £800-00 has been raised for our 2017 nominated Charity, Eiriol Mental Health Advocacy, based in Carmarthen. This money was raised at the Welfare Charity Meal in The Railway and the proceeds from The Santa Parade collection, the following raffle in The Railway and the money from the Bottle on the Bar. Many thanks to everyone who supported the above events, especially Santa, his Chauffeur and Elves, Jayne and Nick at The Railway and Martin Dickenson (the Parade's tail-end Charlie).

The cheque for Eiriol will be presented to Eiriol at The Railway on a date to be arranged.

Two more new benches have been purchased for the playing field and their concrete plinths will be laid as soon as the weather allows.

The Trustees next meeting will be held on Tuesday, 13th. March at 8p.m. in the Memorial Hall and villagers are invited to attend. Derick Lock, Secretary, (01267) 253524.

Llanpumsaint and District Choir

The choir held its Annual Concert at the Tabernacl Chapel in Carmarthen on Saturday November 4th 2017. The supporting artists were Jessica Robinson, Huw Ynyr, Daniel O'Callaghan and Carys Bowen. Gwyn Nicholas was the conductor and the accompanists were Lynne James and Rhiannon Pritchard. The concert was well supported and much praise was given for the standard of the choir and artists. On November 24th 2017 the choir performed to a very appreciative audience in Talog with the proceeds going towards the upkeep of the hall. The next concert will be in Salem, Llandeilo on December 8th and in Llanpumsaint on December 14th. After all this the choir are having a well earned rest over the Christmas period and will recommence in January 2018.

Should anybody be interested in joining the choir please contact Gwyn Nicholas or any choir member.

Llanpumsaint Allotment Association

